# papur

priordy

**Croes Crist yn wisg amdanaf**
**Wrth wrando gair ein Tad,**
**A chlywed am y cariad**
**Sydd inni gyd mor rhad.**
**Mae’n llenwi cylchgrawn bywyd,**
**Mae’n cynnal nerth pob un,**
**Rho nerth im heddiw eto**
**I ddathlu yn gytûn.**

*Peter Hughes Griffiths*

*Gweler yr Atodiad am y gerdd gyflawn*

**Rhifyn 300**
**PAPUR MAI 2017**

# LLYTHYR AT BAPUR PRIORDY

Capel Y Priordy
Heol Y Prior
Caerfyrddin

Mehefin 2017

***Annwyl Bapur Priordy**,*



*Ysgrifennaf atat ar ran yr aelodau i ddymuno pen-blwydd hapus iawn i ti ar ddathlu ohonot dy 300fed rhifyn. Gwibiodd y rhifynnau heibio fesul mis a blwyddyn, a thestun llawenydd i bawb ohonom yw dy gyfarch ar yr achlysur arbennig hwn.*

*Bydd rhai yn cofio dy eni, ac fel y daethost i fywyd ein heglwys, fesul brawddeg, trwy weledigaeth rhai o griw iau Y Priordy. Bydd rhai yn cofio'r rhifynnau cyntaf, yn denau ac eiddil o ran maint, ond yn llawn egni, gweledigaeth a photensial.*

*Mae rhai yn cofio dy dudalennau yn magu hyder a nerth, egni a bywyd, lliw a lluniau, a'r hadau a osodwyd yn nechrau dy fod yn blaguro ac yn esgor ar fisolyn deniadol a gwerthfawr.*

*Daeth eraill ohonom i'th adnabod pan oeddet eisioes bron a chyrraedd dy lawn dwf, a chawsom oll y fraint o dynnu ohonot ddoniau newydd a chynhyrfus, a gweld ynot botensial i'th ddatblygu ymhellach ar droethwy oes ddigidol.*

*Yn ein llawenydd o weld dy werth a'th waith, cydnabyddwn ôl llaw Duw ar dy fodolaeth a diolchwn iddo am ddonio unigolion ers dros chwarter canrif i'th fwydo'n fisol a geiriau ystyrlon, i osod siâp a threfn arnat, i'th argraffu'n ddestlus a di-ffwdan, i'th noddi'n dawel, ac i ddiogelu dy gylchrediad - ar bapur, yn electronig ac yn ddigidol.*




*Heddiw, dathlwn dy 300fed rhifyn. Dathlwn dy fod yn parhau i fod yn gyfrwng gwerthfawr i estyn neges Iesu Grist i'r eglwys a'r gymdeithas.*

*Er iti, wrth reswm, altro wrth dyfu a datblygu i'r hyn yr ydwyt heddiw, ac er fy fod yn adnabyddus i lawer ymhell tu hwnt i furiau'r Priordy - yn wir, rwyt yn llwyddo i gyrraedd dy ddilynwyr o Fôn i Fynwy - eto,*

*diolchwn nad wyt wedi colli golwg ar dy fwriad gwreiddiol, pan blannwyd yr hadau cyntaf hynny gan asbri'r dwylo ifanc, sef i ddwyn ynghyd teulu'r Ffydd yn Y Priordy, ac i ledaenu neges Iesu.*

*Diolch bod dy dudalennau wedi bod yn gyfrwng i addysgu a chalonogi, i longyfarch ac i gydlawenhau, i gydymdeimlo ac i gynnal, a dy fod yn llwyddo i ymateb i angen yr eglwys gyfan, o'r ieuengaf i'r hynaf o fewn cloriau dy rhifynnau.*

*Diolch am dy arweiniad ysbrydol i'r Saint, am bob gweddi a myfyrdodd, a bod i bawb ohonom sy'n dy ddarllen gael ein cofleidio'n fisol gan dy dudalennau annwyl.*

*Derbyn ein llongyfarchiadau gwresog, a gweddïwn y bydd i ti fwynhau blynyddoedd eto o ddwyn mwynhad a bendith i'th ddarllenwyr - ymhell ac agos - bob mis.*



*Yn gywir*

***Beti-Wyn a'r aelodau***

***GWEDDI***



*Ein Tad,*
*Diolchwn am Bapur Priordy,*
*am bawb sy'n sicrhau ei fod yn gweld golau dydd*
*o fis i fi.*
*Am y llawenydd, y cysur a'r fendith a ddaw ohono,*
*am iddo fod yn gyfrwng i ledaenu newyddion a chlymu teulu'r eglwys ynghyd,*
*am iddo fod yn gyfrwng bugeiliol yn ein plith,*
*ac yn arf cenhadol pwysig.*
*Cymorth ni i roi o'n gorau er mwyn gweld ei barhad*
*am flynyddoedd eto i ddod.*
*Yn enw Iesu Grist*

***AMEN***

**CYRDDAU PREGETHU**





**CANA**
Nos Fercher, 10 Mai 2017 am 7
**Y Parchedig Gwyn Elfyn**
Swper i ddilyn

**BANCYFELIN**
Nos Iau, 25 Mai 2017 am 7
**Dafydd Iwan**
Swper i ddilyn

***Croeso cynnes i bawb***

**OEDFA UNEDIG WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL**



Cynhelir Oedfa Unedig i gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol nos Sul 14 Mai 2017 am 5 yn Heol Awst. Bydd yn oedfa ddwyieithog gyda'r Parchg Dr Ainsley Griffiths yn pregethu yn y Gymraeg. Gwneir casgliad at waith Cymorth Cristnogol. Croeso cynnes i bawb.

***BRECWAST MAWR***

***Bore Mercher, 17 Mai 2017 rhwng 8 a 10 yn Eglwys Sant Ioan, Stryd y Prior***



**Fel rhan o weithgareddau Wythnos Cymorth Cristnogol** mae eglwysi Sant Pedr, Sant Ioan, Abergwili, Capel y Groes a'r Priordy wedi uno i drefnu ***BRECWAST MAWR.***. Estynnir croeso cynnes i bawb.
***Angen 3 o bobl i helpu'r Gweinidog ar y bore. Rhowch wybod os ydych ar gael os gwelwch yn dda***

**AR Y WE: www. priordy.org** ***(yn cynnwys Papur Priordy)***

# BLWYDDYN BYW Y BEIBL

## DARLLENIADAU EBRILL

| | |
|---|---|
| Wythnos 1: | Salm 23 |
| | |
| Wythnos 2 | Salm 31: 1-5, 15-16 |
| | |
| Wythnos 3 | Salm 66: 8-20 |
| | |
| Wythnos 4 | Ioan 17: 1-11 |

**CAPEL Y PRIORDY, CAERFYRDDIN**

## CYMANFA FAWR

## PANTYCELYN



**Nos Sul, 18 Mehefin 2017 am 7 o'r gloch**

**Cofio 300 mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn**

**Arweinydd**
**John S Davies**



**Unawdydd**
**Elin Llwyd**

***Rhaglen : £6 (drwy Peter a Meinir Hughes Griffiths)***



***Elw at Gronfa Organ Capel y Priordy.***

*Mae croeso i unrhyw rai gyfrannu at y Gronfa hon os ydynt yn dymuno. Byddai hynny'n cael ei werthfawrogi'n fawr.*

# WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL
## *14-20 Mai 2017*

# YN CYNORTHWYO FFOADURIAID

## CASGLU YN Y DREF

Bydd Cymorth Cristnogol yn casglu o gwmpas y dref ar **Ddydd Mercher, 17 Mai rhwng 10 a 2.00 o'r gloch**. Mae mawr angen gwirfoddolwyr i gasglu. Yn ôl yr arfer, canolfan weinyddu'r casglu fydd Capel y Wesleaid yn Stryd Ioan (y tu ôl i Siop Boots). Cysylltwch â Swyddfa Cymorth Cristnogol neu Jean Baker ar ☎ 01267 241079 os ydych yn gallu helpu, os gwelwch yn dda.

Credwn mewn byw cyn marw

**WRTH GYFRANNU MEWN AMLENNI**

**Mae'n bwysig i drethdalwyr ysgrifennu eu henwau ar yr amlenni er mwyn cael arian ychwanegol na fyddai Cymorth Cristnogol yn ei dderbyn ar wahân i hynny.**

**Gwefan : www.cymorthcristnogol.org.uk Gwefan blant: www.globalgang.org.uk**
**Caerdydd: 029 2084 4646 Bangor: 01248 353574 Caerfyrddin: 01267 237257**

**OS YDYCH CHI'N GALLU HELPU I GASGLU O DŶ I DŶ, CYSYLLTWCH Â'N SWYDDOGION CYMORTH CRISTNOGOL RHIAN MAIR EVANS AC EIRLYS JONES OS GWELWCH YN DDA**

## Mae'n ben-blwydd Wythnos Cymorth Cristnogol yn 60 oed eleni

Cymorth Cristnogol

**PWYNTIAU GWEDDI**

**Rhowch ddiolch am waith Wythnos Cymorth Cristnogol dros 60 blynedd, a'r gwahaniaeth anferthol a wnaed trwyddi i bobl sydd mewn angen mawr o amgylch y byd.**

**Gweddïwch dros bawb sydd wedi ffoi o'u cartrefi ac sy'n wynebu dyfodol ansicr, fel Nejebar a'i theulu yng Ngwlad Grroeg.**

**Gweddïwch dros ein partneriaid sy'n gweithio gyda ffoaduriaid ar draws Ewrop a'r Dwyrain Canol.**

**Gweddïwch am ddatrysynnau mewn mannau o anghydfod o amgylch y byd.**

**Gweddïwch y bydd llywodraethau yn gwneud penderfyniadau doeth a thosturiol i amddiffyn ffoaduriaid.**

### NEJEBAR A'I THEULU



**Ffodd Nejebar Affganistan gyda'i theulu ar ôl i'r Taliban fygwth lladd ei gŵr, Noor, a oedd yn athro. Pan gyrhaeddodd y teulu wersyll ffoaduriaid yng Ngroeg, roeddent yn credu mai ond am 10 diwrnod y byddai raid iddynt aros yno. Ond maent wedi bod yno am chwe mis bellach a dim arwydd eu bod am gael symud. Yr unig loches sydd ganddynt yn erbyn y gwynt a'r glaw yw eu pabell. Does dim ysgol i'r plant. Mae eu plentyn ieuengaf, Sudai, sy'n bump, yn sâl, ond ni ŵyr Nejebar a Noor be sy o'i le efo fo gan nad ydynt yn deall meddyg y gwersyll, sy'n Roegwr. Nejebar yw'r graig sy yng nghanol bywyd y teulu, yn eu dal gyda'i gilydd yng nghanol yr holl ansicrwydd. Mae hyd yn oed wedi croesawu Faraidoon a Farzad i'r teulu, dau frawd na wyddant ble mae eu rhieni, na hyd yn oed a ydynt yn fyw ai peidio. 'Mae gennym beth gobaith am ddyfodol ein plant,' meddai Nejebar. 'Dim ond am gael bywyd heddychlon ydan ni. Rydyn ni am i'r plant gael mynd i'r ysgol. Y peth pwysicaf i ni yw'r plant.'**

| | |
|---|---|
| **NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA 2017** | URDD GOBAITH CYMRU |

***Eleni, mae Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru yn 95 mlwydd oed.***

Ers 1922 mae'r broses o anfon neges ar ran bobl ifanc Cymru i bobl ifanc yng ngweddill y byd wedi bod yn ysgogi ac yn ysbrydoli gweithgarwch dyngarol a rhyngwladol.

Rhoddwyd y cyfrifoldeb ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf i Urdd Gobaith Cymru gyhoeddi Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn flynyddol ar ddydd Ewyllys Dda, 18 Mai, sef dyddiad y gynhadledd heddwch gyntaf yn yr Hâg yn 1899.

Ers hynny mae grwpiau o bobl ifanc wedi derbyn y cyfrifoldeb i greu'r neges, ei pherfformio ynghyd â'i chyfieithu i nifer fawr o ieithoedd i'w dosbarthu i bobl ifanc y byd.

Eleni Bwrdd Syr IfanC sydd â'r cyfrifoldeb o lunio'r Neges. Mae Bwrdd Syr IfanC yn cynnig cyngor ac arweiniad i Gyngor yr Urdd ar faterion cenedlaethol, yn arbennig y gweithgareddau i bobl ifanc rhwng 15 a 25 oed. Mae'r cyfarfodydd yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc (15 i 25 oed) gynnal trafodaeth ar beth sydd yn bwysig iddyn nhw er mwyn datblygu'r Urdd ac i drafod beth sy'n bwysig iddynt a lleisio'u barn ar bethau sy'n eu heffeithio, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r Gymraeg

Thema'r neges eleni yw **Cydraddoldeb i Bobl Ifanc**. Trwy gyfres o weithdai, cyfarfodydd Skype, mewnbwn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth a chyngor y Panel Cyd-ddyn dan arweinyddiaeth y Parchedig Ganon Aled Edwards, daeth trafodaethau, meddyliau, teimladau a geiriau at ei gilydd i greu un neges gytûn.

Bydd y Neges yn cael ei rhannu ar fore Mercher, 18 Mai a hefyd ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái. Mae'r Urdd yn comisiynu gwasanaeth i gyd-fynd â'r neges bob blwyddyn i'w ddefnyddio mewn ysgolion neu ysgolion Sul

# NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA
# GAN IEUENCTID CYMRU I IEUENCTID Y BYD
## *18 Mai 2017*

Gwahoddwn ieuenctid ar draws y byd i ymuno gyda ni i alw am gydraddoldeb i bobl ifanc.

**Rydym eisiau cydraddoldeb:**
Yn ein cyfleoedd addysgol; yn ein rhyddid i fyw yn ôl ein rhywioldeb; wrth ymdrin ag anableddau; yn ein cyfleoedd mewn bywyd; yn ein hawliau i ddefnyddio ein hiaith; beth bynnag ein hil a'n daliadau crefyddol.
Heb gydraddoldeb a chydnabyddiaeth o'n hawliau, ceir yr argraff anghywir ohonom ni, y bobl ifanc.

**Rydym eisiau i'n lleisiau gael eu clywed, rydym eisiau i'n lleisiau gael eu parchu.**

Mynnwn yr hawl i bawb fynegi eu barn ac i bobl ifanc fwrw eu pleidlais, gan ofyn i eraill siarad gyda ni, cyn siarad ar ein rhan ni.
Nid oes gennym yr holl atebion ac mae gennym ein gwendidau ond rydym yn eu cydnabod ac mae gennym le i wella.
Mynnwn dderbyn y wybodaeth gywir

Mynnwn gael ein haddysgu am faterion cymdeithasol, gwleidyddol a rhyngwladol - trwy anogaeth ac nid gorfodaeth a thrwy hynny medrwn ddylanwadu ar eraill.

Gyda'n gilydd, gallwn godi safonau ein cymdeithas ar gyfer ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol - a sicrhau taw cydraddoldeb sydd wrth wraidd penderfyniadau'r dyfodol.

## TEULU NEWYDD I'R TŶ CAPEL




Bu croeso brwd iawn yn ein Cwrdd Eglwys ar Fore Sul, 30 Ebrill 2017 i gyhoeddiad ein Gweinidog y bydd teulu o ffoaduriaid o Syria'n ymgartrefu yn ein Tŷ Capel cyn bo hir yn awr.

Caiff y cynllun hwn ei weithredu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gâr ac mae'n diolch yn fawr i Peter Hughes Griffiths am fod yn gyswllt rhwng y capel a'r cyngor.

Daw gwybodaeth bellach yn y man ond diolchwn ein bod fel eglwys yn gallu chwarae rhan yn y gwaith o adsefydlu ffoaduriaid o Syria.

## Y BEDYDDWYR YN DATHLU!

**Dydd Sadwrn 17 Mehefin 2017 – 10 hyd 4.30**

**Canolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin**

***Undeb Bedyddwyr Cymru'n dathlu 150 o flynyddoedd. Gwahoddiad agored i bawb ddod i'r parti!***

**Digwyddiad arbennig i'r teulu cyfan. Digon o weithgareddau cyffrous i bobl o bob oed yn cynnwys:**




- **Sioe arbennig gan Rosfa**
- **Addoliad cyfoes gyda Martin Geraint**
- **Gemau 'zorbiau'**
- **Gweithgareddau celf a chrefft**
- **Parti Pitsa i'r ieuenctid**

**Y cyfan yn rhad ac am ddim**

## PERERINDOD YR OFALAETH



**Dydd Sul, 23 Gorffennaf 2017**

**SOAR Y MYNYDD**

**Nodwch y dyddiad!**


## CODI'R TO!!



Efallai eich bod wedi sylwi bod set newydd sbon o ddrymiau wedi cyrraedd y Capel. Rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael derbyn nawdd ariannol oddi wrth Raglen Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i noddi prosiect newydd yn Y Priordy o'r enw 'Codi'r To!'.



Prosiect yw hwn i hybu gwedd gerddorol yr eglwys drwy gynnig cyfleoedd i bobl ifanc chwarae ym mand y Capel a chyfrannu at y mawl.



Yn rhan o'r prosiect rydym wedi prynu offer band taro er mwyn magu diddordeb cerddorol yn y plant iau, gan roi cyfle iddynt hwythau hefyd ymuno yn y mawl ar y Sul. Felly, rhowch eich bysedd yn eich clustiau! Bydd prosiect 'Codi'r To' yn cael ei lansio'r mis yma yn y Cwrdd Plant !

Diolch i Raglen Datblygu'r Undeb am eu haelioni.

## YDYCH CHI WEDI SYLWI?




**Dyma'r arwydd newydd o lechen sydd ar wal y Tŷ Capel.**

**Diolch yn fawr iawn i'r Dr Huw Michael ac Is-bwyllgor yr Adeiladau am lunio, pwrcasu a gosod yr arwydd hardd hwn. Mae'n ychwanegiad defnyddiol i'r Tŷ Capel.**

Beth am droi at Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org



## COPA BRYN MYRDDIN
## AR BRYNHAWN GWENER Y GROGLITH



## Y PASG YN YR OFALAETH

## I GOPA BRYN MYRDDIN
## Dydd Gwener y Groglith



Wedi'r oedfa bregethu yn y Tabernacl gyda'r Parchedig Peter Dewi Richards, Caerdydd, a'r Daith Gerdded dawel dan nawdd Cytûn yn y dref, daeth hi'n amser i ni ddechrau ar ein pererindod i gopa Bryn Myrddin gan gario'r Groes.



Menter newydd oedd hon a drefnwyd ar y cyd rhwng y Priordy a'r Tabernacl ac un a lwyddodd i ddenu nifer da o deuluoedd ar draws yr enwadau yn ein tref.

Ar ôl gair o weddi ym maes parcio Canolfan Bryn Myrddin yn Abergwili dyma fentro arni – pawb wedi gwisgo'n synhwyrol ac ambell un ohonom yn dwyn ffon!

Mae hen hen hanes yn perthyn i Fryn Myrddin ac, yn ôl traddodiad, fel y noda'r gyfrol *Crwydro Sir Gâr*, roedd gan Fyrddin efail danddaearol yma a bod modd clywed sŵn clinddarach y gweithwyr haaearn a phres wrth roi clust ar y ddaear. Ond dim ond sŵn cerddorion pluog y gwanwyn a sgwrsio'r pererinion oedd i'w clywed y prynhawn hwn!



Wedi cyrraedd y copa a gosod y groes bren yno, diolch i ymdrechion y crytiau ifanc Jac ac Ithan a Iestyn, cynhaliwyd gwasaaneth byr dan

ofal y Parchedigion Beti-Wyn a Peter Cutts i gofio am farwolaeth Iesu ar Fryn Calfaria am dri o'r gloch. Wrth ddiweddu cydganwyd *Mawr oedd Crist yn nhragwyddoldeb* (y pennill cyntaf a'r trydydd o waith Titus Lewis, gweinidog y Porth Tywyll a ddaeth yn eglwys y Tabernacl yn  ddiweddarach) ar y dôn *Bryn Myrddin* gan  J Morgan Nicholas.




Cawsom wybod fel cyfansoddwyd y dôn yn arbennig ar gyfer yr emyn hwn gyda golwg ar bwysleisio'r gair 'mawr' ar ddechrau pob llinell.  Ac na, nid y Bryn Myrddin hwn a roddodd enw il'r dôn ond mans Capel Gobaith, Cwmdâr, cartref chwaer y cyfansoddwr.  A rhoddwn ninnau ddiolch am fawredd Duw yn Iesu'n dod â gobaith newydd i ddynol ryw drwy'r Groes a'r Atgyfodiad adeg y Pasg.

Gadawyd y Groes i sefyll ar ben y Bryn Myrddin cyn dychwelyd i'r Ganolfan lle roedd ffrindiau eraill wedi ymuno â ni I fwynhau paned a theisen.  Diolchodd Sulwyn Thomas yn gynnes iawn i Beti-Wyn a Peter am drefnu'r achlysur ac i staff y Ganolfan am y lluniaeth ysgafn.  Mynegodd mor braf oedd gweld aelodau o wahanol eglwysi'r dref a'r cylch wedi ymuno ar gyfer y daith arbennig hon. Bu'n brynhawn i'w gofio.




**BLYCHAU YN Y CYNTEDD**

***COFIWCH AM Y BLWCH  STAMPIAU A'R  BLWCH CETRYS A'R BLWCH POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD***

**S4C**

**NOSON GWYLWYR**
**Nos Iau 25 Mai 2017  - Theatr Halliwell Caerfyrddin**
**7.00 – Paned aTheisen**
**7.30-8.30 – Cyfle i Fynegi Barn**
***Croeso cynnes i bawb. Ni fydd camerâu'n bresennol***

S4C

# YTRYDYDD DYDD



## *YN Y BORE*

***FEL*** mae daeargryn yn gallu ysgwyd y ddaear i'w seiliau a newid cyfeiriad rhannau helaeth ohoni, felly hefyd Iesu, dim ond i ni ymddiried ynddo, Effaith y ddaeargryn a dod wyneb yn wyneb â'r angel oedd achosi ofn i'r gwragedd wrth y bedd gwag ond aethant oddi yno'n llawn llawenydd o ddeall bod Iesu wedi'i atgyfodi a chynnig bywyd newydd i bawb. Dyna oedd bwrdwn neges Beti-Wyn i ni'n seiliedig ar hanes Sul cyntaf y Pasg erioed Pasg yn yr Efengyl yn ôl Mathew.



Da oedd gweld nifer o'r to iau'n bresennol yn yr oedfa a chawsant eu gwala o bethau i'w hatgoffa am wyrth y trydydd dydd, yn cynnwys cylchgrawn i bori ynddo a llyfr sticeri'r un. Ond yn goron ar y cyfan oedd yr Helfa Wyau a baratowyd ar eu cyfer tua diwedd yr oedfa. Daethant o hyd i'r cyfan – mwy na 30 ohonynt - ar ôl chwilota yn y Festri a'r Gegin. Byddant yn cofio hefyd fod arwyddocâd i wahanol liwiau'r wyau a guddiwyd mewn perthynas â'r Pasg, fel yr esboniodd Beti-Wyn cyn iddynt ddechrau chwilota!





Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan y Dr Eirian Thomas (Bancyfelin) a Non James (Cana). Yn y Cymundeb i gloi'r oedfa cynorthwywyd ein Gweinidog gyda'r elfennau gan Wyn Tegryn Evans a Gareth Gravell (Y Priordy), Lyn Jones (Bancyfelin) a Howard James (Cana). Yr organydd oedd Eira Phillips a'r casglyddion - Megan, Jac, Osian a Tomos.



Nid angofiodd ein Gweinidog ychwaith am ddant melys 'plant mawr' y capel a chawsom i gyd wy Pasg bach i ddathlu'r dydd y cododd Iesu.

## *YN Y PRYNHAWN*




Daeth tyrfa dda ynghyd ger mynedfa'r Wenallt ym Mancyfelin ar gyfer yr ormydaith drwy'r pentref, yn cynnwys nifer o blant a phobl ifainc. Roedd aelodau'r capel wedi bod yn dosbarthu taflenni o gwmpas y pentref am y digwyddiad ymlaen llaw a hynny wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r achlysur.




Bu cyfle i oedi yma ac acw ar y daith i ganu emyn, gwrando ar ddarn o'r Beibl ac i weddïo.  Unwaith eto eleni, roedd aelodau Bancyfelin wedi gofalu am dywydd sych ar ein cyfer!  Diolch i'n Gweinidog, Wyn Tegryn Evans, Angharad Earles, Rhian Bowen, Gwion Jones a Gwawr Waters am gymryd rhan ac i Rhys Thomas am arwain y daith gan gludo'r Groes.  Hyfryd oedd cael aros ger cartref Sali Walters, cyn-Ysgrifennydd Capel Bancyfelin, a chael ei chyfarch a'i gweld yn ymuno â ni i ganu emyn.

Yn y capel wedyn, cynhaliwyd gwasanaeth byr gyda'n Gweinidog, a chymerwyd rhan hefyd gan Carolyn Hancock ac Angharad Richards. Y casglyddion oedd y plant ifanc George a Grace Thomas. Roedd Carwen Howells wrth yr organ.

Yn ei neges apelgar at bawb ar draws yr ystod oedran, cyfeiriodd ein Gweinidog at arwyddocâd yr Wy Pasg. Mae'r plisgyn allanol wedi'i chwalu a'r canol yn wag yn symbol o'r bedd gwag a'r maen wedi'i dreiglo i ffwrdd ar fore'r Pasg. Ni all unrhyw feini gaethiwo'r Iesu byw. Mae'n treiglo i ffwrdd pob maen. A'n lle ninnau heddiw yw treiglo i ffwrdd y meini hynny yn ein bywyd ni, fel diffyg ffydd a difaterwch, sy'n ein hatal rhag dilyn a gwasanaethu Iesu a bod yn ffyddlon iddo.



***MWYNHAWYD*** paned a byns y grog ar ddiwedd yr oedfa. Diolchodd Sulwyn Thomas am y lluniaeth ysgafn yn y capel ac am bob gofal a gafwyd ar y daith. Mynegodd hefyd ein gwerthfawrogiad o waith ein Gweindog dros y Pasg. Bu'r cyfan yn fentrus a llwyddiannus. Fe'i llongyfarchodd hefyd gan mai ar y dyddiad hwn yn union, bymtheng mlynedd ynghynt, y dechreuodd ar ei gweinidogaeth yn ein Gofalaeth. Bu'n gyfnod torieithiog a bendithiol. Yn ôl y Calendr Eglwysig, ar Sul y Pasg Bach y cynhaliodd ei hoedfaon cyntaf yn ein Gofalaeth ond, yn ddiamau, nid oes unrhyw arwyddion o fychander yn y gwaith a gyflawnir ganddi dros y Ffydd Gristnogol yn lleol a thu hwnt.



**CYNLLUN Y FFORDD**

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

**Nos Fercher 24 Mai 2017**
**Festri Heol Awst**

***Cyfarfod cychwynnol i gyflwyno'r cynllun i gapeli Dosbarth Myrddin yng Nghyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.***



**CYFUNDEB ANNIBYNWYR**
**GORLLEWIN CERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**



**Dydd Iau, 11 Mai 2017 - Capel Newydd, Llanybri**

**Cyfarfod y Prynhawn am 4**
**Cyfarfod yr Hwyr am 7 – Anerchiad Llywydd yr Undeb: Glyn Williams**

***Croeso i bawb***

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**ALUN A TINA CHARLES A'R TEULU**
**Heol Bronwydd**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

## SUL SBESIAL 2017



**9 Gorffennaf 2017 – 10.30**
**Neuadd Pontyberem**

**Oedfa Deuluol i holl Gristnogion Cymraeg Sir Gâr**

**BYW'R BEIBL**

**Dr Owain Edwards a'i griw o Goleg y Bala**
**Pobl Ifainc Capel Newydd Llandeilo**

**Paned a Phice bach i ddiyn – a Stondiau**

**Mynediad am ddim Casgliad at Cymorth Cristnogol**

**Os ydych yn teithio mewn car, bydd bws wennol i'ch cludo o'r Maes Parcio ger y Parc**

**DEWCH I DDATHLU EIN FFYDD!**

***Trefnir gan Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid Sir Gâr***

# HEN SBECTOLAU






**Diolch i bawb a gasglodd hen sbectolau ar gyfer Vision Aid Overseas.**

***Yn y llun: Rachel Evans o Celtic Vision a'n Gweinidog***

# Croeso i dudalen Ieuenctid@Priordy

## Codi'r to!



Efallai eich bod wedi sylwi ein bod wedi cael set o ddrymiau newydd sbon ar gyfer y Capel! A hefyd, offer band taro ar gyfer y plant iau! Nawrte, oes un ohonoch yn chwarae'r drymiau? Ac a hoffech ymuno â band y Capel? Neu, os oes un ohonoch yn chwarae offeryn arall, ac yn gallu chwarae emynau'n ddidrafferth (gan nad oes gan y band amser i ymarfer!), rhowch wybod i mi os oes gennych ddiddordeb.

## Calendr y mis



Mai 7 - Ysgol Sul
Mai 14 - Cwrdd Plant a Phobl Ifanc
Mai 21 - Ysgol Sul
Mai 29 - Hanner Tymor
Mehefin 4 - Ysgol Sul
Mehefin 18 – Sioe William Morgan

## Urdd

Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd!

## Gefeillio Tŷ Bach!

Wyddoch chi, am £60, bod modd gefeillio ein tŷ bach ni yn Y Priordy a thŷ bach arall hanner ffordd o amgylch y byd! Am £240, gallwn efeillio bloc cyfan o dai bach! Fe fydd y cyfraniad yn sicrhau dŵr glân, glanweithdra sylfaenol ac yn addysgu pobl sydd heb dderbyn yr un addysg â ni sut i gadw eu hunain yn lân. Mae'r prosiect yn cael ei weithredu drwy elusen Tearfund. A dyma mae'r wefan yn ei ddweud: '*Family by family, community by community, nation by nation, we are flushing away poverty.'*

Hoffwn yn fawr iawn pe baen ni yn Y Priordy yn gefeillio ein tŷ/tai bach fel rhan o'r prosiect. Rwy'n chwilio am syniadau gennych chi, blant a phobl ifanc, sut i godi arian - £60 i gychwyn i efeillio un tŷ bach, a chawn weld ble awn o fanna! Os llwyddwn i wneud, byddwn yn cael tystysgrif i'w gosod ar wal ein tŷ bach yn Y Priordy yn nodi pa dŷ bach rydym wedi gefeillio ag e! Gan edrych ymlaen at dderbyn unrhyw awgrymiadau (a chan y rhieini hefyd!) Diolch!

**Twdlw am y tro,** *Beti-Wyn*

# Y NWYDDAU AR EU FFORDD I LOCHES Y MENYWOD, CAERFYRDDIN

## *Diolch i bawb a gyfrannodd*






**Elen Marks…**



## SUL Y BLODAU 2017

***AR EBRILL*** y 9fed, roedd oedfa Sul y Blodau yng ngofal plant a phobl ifanc yr Eglwys.  Croesawyd y gynulleidfa i'r oedfa gan nodau pêr band y Priordy; Nicki ar y piano, Gareth (G) ar y gitâr fâs, Philip ar y gitâr, Gareth ar y clarinet ac Erin ar y drymiau (a hynny am y tro cyntaf!) Da iawn Erin!


Croesawodd Beti-Wyn y gynulleidfa gan gynnig gweddi deimladwy cyn i Miriam a Beca ddod i'r pulpud i ddarllen yr emyn gyntaf sef '*Dyro gân dan fy mron'*.  Nodwyd cyhoeddiadau'r wythnos gan Tim ac fe wnaed y casgliad gan Ethan, Gwenan, Mali a Luned (gyda help Cai, cefnder Gwenan).  Yn ystod y casgliad cafodd y dyrfa wledd o '*The Entertainer'* ar y piano gan Carwyn.  Wedi i Beti-Wyn ddiolch i'r casglwyr am eu gwaith, tro Anna oedd hi i ddarllen yr ail emyn, sef *'Cariad Crist'*.



Wrth i'r gynulleidfa orffen canu'r emyn, daeth Harri, Jona, Gwion a Jac i'r pulpud.  Soniodd Harri am ystyr Sul y Blodau a phryd y cychwynnodd dathliadau Sul y Blodau. Gwahoddodd Harri Jona i ddarllen hanes yr Iesu'n marchogaeth i mewn i Jerwsalem (Mathew 21: 1-11)  Wedi'r darlleniad, cyfle Gwion a Jac oedd hi i sôn am y croesau palmwydd sy'n cael eu gwneud gan bobl Tanzania. Soniodd y ddau am brosiect y Croesau Palmwydd sy'n rhoi'r cyfle i bobl Tanzania ennill ychydig o arian ychwanegol.  Nododd Gwion bod yr arian yma'n hollbwysig ar gyfer talu am addysg a gofal meddygol.  Gofynnodd Jac a oedd y gynulleidfa erioed wedi meddwl sut caiff y croesau eu gwneud a gofynnodd Gwion i bawb wylio ffilm fer ar sut y gwnaed y rhain gan bobl Tanzania.



Roedd y ffilm yn un hudolus oedd yn cyrraedd y galon ac ynddi neges bod y croesau nid yn unig yn ein hatgoffa o'r rheswm y daeth Iesu i'n plith, ond hefyd yn gwneud i ni sylweddoli ein bod yn estyn allan mewn modd ymarferol i helpu'n brodyr a'n chwiorydd yn Affrica.



Wedi i'r ffilm orffen dosbarthwyd croes palmwydd i bob un o'r  gynulleidfa a hynny gan Caleb, Iestyn, Noa ac Osian. Wrth i'r bechgyn ddosbarthu'r palmwydd daeth Carwyn yn ôl i'r piano i chwarae darn o *Les Miserables*. Ymunodd y gynulleidfa oll yng Ngweddi'r Palmwydd cyn canu'r drydedd emyn '*Y mae in Waredwr'.*

Wedi'r emyn gwahoddodd Beti-Wyn y plant a'r bobl ifanc i'r blaen er mwyn cael sgwrs bellach am ddigwyddiadau Sul y Blodau.  Roedd gan Beti-Wyn nifer o eitemau i'w rhannu â'r plant a'r bobl ifanc er mwyn rhoi syniad gweledol iddynt o'r digwyddiadau hyn  Rhoed eitemau o ddillad a phalmwydd allan i rai o'r plant i daflu o flaen Gwion oedd wedi'i wisgo fel yr Iesu.  Cafwyd hefyd gyfle i chwarae gêm o '*pin the tail on the donkey'* ond yn lle cwt roedd y plant yn cael cyfle i roi mwgwd am eu llygaid ac i geisio roi'r ffigwr Iesu ar gefn yr asyn! Gwnaeth y pedwar plentyn yn arbennig o dda a'r pedwar ohonynt wedi dod i ben a rhoi Iesu ar, neu yn agos iawn i gefn yr asyn!



OND..roedd un gwestai arbennig ar ôl..a oedd wedi dod i ddymuno Pasg hapus i'r plant a'r bobl ifanc.. ond pwy ydoedd?! Daeth sŵn *'hee-haw'* o rywle…a dyma fe'n ymddangos!  Oedd, roedd Islwyn yr asyn wedi dod i weld y plant a'r bobol ifanc eleni eto! Cafodd Islwyn y cyfle i ganu ychydig ar yr emyn olaf, '*Pwy all beidio canu'*, gyda'r gynulleidfa, cyn iddo ddweud hwyl fawr am eleni eto.

***DIOLCHWYD*** i bawb a chyhoeddwyd Y Fendith gan Beti-Wyn i ddod â gwasanaeth hwylus a bendithiol i ben.

**Beth am droi at cyfundeb.com?**
**Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin**



# BRAWDDEGAU'N PERI SYNDOD
# YN Y *WESTERN MAIL*

**Mark Rees….**


**Efallai y bydd yn syndod i rai – yn sicr roedd i fi – nad oes yr un gofgolofn i ferch benodol mewn unrhyw le yng Nghymru. Ac ychydig iawn o blaciau glas, gyda rhyw ddwsin i'w canfod ar draws Cymru, mewn cymhariaeth â 200 a mwy i ddynion.**

*Mewn erthygl yng Nghylchgrawn y Western Mail, Dydd Sadwrn 22 Ebrill 2017.*

**Os gwyddoch chi'n wahanol, rhowch wybod, os gwelwch yn dda.**


**DIWRNOD LLYFRAU LLAFAR**

**Dydd Gwener 12 Mai 2017**
**10 y bore tan 2 y prynhawn**



- **Galwch draw i'n gweld y tu allan i Gloc y Farchnad, Caerfyrddin.**
- **Cyfle i ddysgu mwy am ein gwasanaeth**
- **Adloniant gan ysgolion lleol, a mwy**

## FFILMIO



Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn paratoi ffilm fach o fywyd yr eglwys yn y Priordy. Efallai y gwelwch Rhodri Darcy (o'r Undeb) a'i gamera mewn ambell ddigwyddiad dros y misoedd nesaf

# ADNEWYDDU'R ORGAN



Penderfynwyd yn unfrydol yn ein Cwrdd Eglwys ar Fore Sul, 30 Ebrill 2017 i dderbyn argymhelliad y diaconiaid i symud ymlaen i adnewyddu'r organ.

Mae'r organ bresennol wedi bod yn ei lle ers 80 mlynedd ac ar wahân i'r broses 'cynnal a chadw' o bryd i'w gilydd, mae wedi rhoi gwasanaeth arbennig iawn i fyd caniadaeth ein cysegr. Ond, er ei bod yn dal i swnio'n ardderchog, dim ond rhan ohoni sy'n gweithio bellach ac mae problemau gyda'r 'stops' a'r rhan sy'n cael ei chwarae gyda'r traed. Y rheswm am hyn yw bod rhannau pwysig ohoni yn dod i ben, ac yn bennaf y fegin sydd o wneuthuriad lledr – a hynny ar ôl 80 mlynedd. Mae cwmni arbenigol yn Abertawe'n gallu gwneud y gwaith adnewyddu, ac yna dylai'r organ a'i seiniau hyfryd barhau am flynyddoedd lawer eto i'n gwasanaethu. Bydd y gost o adnewyddu'r organ tua £6,000.

Sefydlwyd Cronfa'r Organ yn y Priordy rai blynyddoedd yn ôl ond mae Apêl wedi'i lansio i geisio chwyddo'r coffrau er mwyn cwrdd â chost adnewyddu'r organ yn llawn.

Bydd elw Cymanfa Fawr Pantycelyn ar Nos Sul 18 Mehefin 2017 yn mynd at yr Apêl ac mae'r tocynnau ar gael gan Peter a Meinir. Yn ogystal, mae Peter a Meinir wrthi'n ddiwyd yn cysylltu â 'phlant yr eglwys' a godwyd yn ein capel i'w gwahodd i gyfrannu. Mae'n dyled yn fawr i Peter a Meinir am fod yn gyfrifol am y gwaith hwn.

Derbyniwyd yn ein Cwrdd Eglwys awgrym hefyd a godwyd gan Tim Hayes, un o'n diaconiaid, sef ein bod yn gwahodd aelodau a theuluoedd a chyfeillion i noddi pibau'r organ. Gosodwyd isafswm o £10 o nawdd ar gyfer pob piben ond bod rhyddid i bobl gyfannu mwy na hynny os ydynt yn dymuno. Daw rhagor o fanylion am y cynllun hwn yn y man. Tybed faint ohonoch sy'n gwybod sawl piben sydd i'r organ? Ceisiwch eu cyfrif – ond nid yn ystod y bregeth, os gwelwch yn dda! A pheidiwch â chael eich camarwain. Mae yna bibau ar yr ochrau yn ogystal ag yn y tu blaen!

## MIC
## RHAI DYDDIADAU I'W NODI

| | |
|---|---|
| BWRLWM BRO'R YSGOLION SUL | 11 Mehefin Yr Atom Caerfyrddin (10.30) |
| MABOLGAMPAU DAN DO | 21 Mehefin: Mabolgampau Gorllewin y Sir.<br>29 Mehefin: Mabolgampau Dwyrain y Sir<br>12 Gorffennaf: Mabolgampau (Rowndiau Terfynol Y Sir) |
| SUL SBESIAL | 9 Gorffennaf Neuadd Pontyberem (10.30) |

## APÊL MIS MAI

Dymunwn ddiolch i bawb yn y lle cyntaf am ymateb mor hael i Apêl Mis Ebrill drwy gyfrannu rhoddion ar gyfer Banc Bwyd Caerfyrddin. Gwyddom yn dda fel mae'r Banc yn cyflawni gwaith mor ardderchog yn diwallu anghenion lleol

Ein hapêl am Fis Mai yw Cymorth Cristnogol a bydd digon o gyfleoedd, yn enwedig yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, i ni hybu gweithgarwch yr elusen arbennig hon

**CYMDEITHAS Y CYMOD**
**CELL CAERFYRDDIN**

**Nos Lun 8 Mai 2017 – 7.30**
**Festri'r Tabernacl**
**Awdlau Heddwch a'r Prifardd Hywel Griffiths yn trafod ei gerddi heddwch**

## CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

**Nos Fercher 20 Medi 2017 am 7 yn y Festri**

***Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda***

**Mari Jenkins….**

## YMGYRCH ECO Y PRIORDY



***FEL*** rydych yn gwybod ers tua dwy flynedd bellach rydym wedi bod yn casglu topiau poteli plastic yn y Capel.  Bydd y topiau yn cael eu cyflwyno i Ian sy'n gweithio yn Radio Glangwili. Ei fwriad yw prynu cadeiriau olwyn  i'r Adran Therapi Galwedigaethol yng Nglangwili. Gyda chymorth y Priordy a nifer o sefydliadau eraill mae Ian wedi casglu digon o dopiau poteli i brynu 2 gadair olwyn a hanner hyd yn hyn. Cyn bo hir bydd yn cyflwyno dwy gadair olwyn newydd sbon i'r Adran.

Wyddoch chi…..?

***MAE ANGEN*** 1 miliwn 400 o dopiau poteli llaeth i brynu un gadair olwyn newydd.  Mae Ian wedi casglu 180 o sacheidiau o dopiau plastic hyd yn hyn. Bydd yn gwerthu'r topiau ymlaen i CWM - yn Nant y Ci ger Caerfyrddin.  Cwmni fferyllfa Lloyds yn Llandysul sy'n darparu'r caderiau olwyn. Mae nifer fawr o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â Chapeli'r Priordy a Cana'n cyfrannu at yr achos. Gallwn ni yn y Priordy helpu drwy gasglu cymaint o dopiau ag y gallwn. Gofynnwch i'ch teulu a'ch ffrindiau i'n helpu hefyd. Dim ond topiau poteli llaeth sydd eu hangen arnom - rhai, glas, coch a gwyrdd. Yn anffodus ni all Ian dderbyn unrhyw dopiau eraill. Drwy wneud hyn rydym yn ailgylchu a helpu achos da ar yr un pryd.



Cofiwch hefyd ein bod yn casglu cetrys inc a stampiau i'w cyflwyno i Gymorth Cristnogol  Mwy i ddilyn….

## DRWS AGORED

**TYMOR 2016-2017**

***BORE IAU 25 Mai 2017***

**Festri'r Priordy**

***Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11***

***Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys***

## CROESAWU CYFEILLION Y MOSG











# CROESAWU CYFEILLION Y MOSG



**Ein braint yn y Priordy wedi'r oedfa ar Fore Sul, 2 Ebrill 2017 oedd croesawu rhai o aelodau'r Mosg yn Heol y Prior, Caerfyrddin, atom am baned a sgwrs**

**Bu aelodau'r Mosg yn garedig iawn yn rhoi caniatâd i ni ymarfer ar gyfer ein Gwasanaeth Nadolig yn eu hadeiladau (sy'n cynnwys hen Gapel Bethania erbyn hyn) oherwydd cyfyngder lle yn y Priordy. Yn ogystal, bu PIP (Pobl Ifainc y Priordy) ar ymweliad â'r Mosg un bore Sul a chael eu croesawu'n fawr ac elwa o'r profiad.**

**Braf oedd gweld teuluoedd wedi dod atom. Cawsom amser difyr yn eu cwmni a chyflwynodd ein Gweinidog, Y Parchedig Beti-Wyn James hefyd wybodaeth iddynt am ein capel, y ffydd Gristnogol a'n dulliau o addoli.**



**Wrth ymateb i'r croeso a gafwyd amlinellodd y Dr Baba Gana (sy'n un o aelodau Gyngor Tref Caerfyrddin) y pethau hynny sy'n gyffredin rhyngom fel Mwslemiaid a Christnogion. Cyfeiriodd at y Beibl a'r Corân wrth wneud hynny. Dywedodd fod mwy yn gyffredin rhyngom nag o nodweddion i'n gwahanu. Trueni na fyddai'r Wasg yn gweld hynny'n amlach! Mynegodd hefyd ddymuniad ei gyd-aelodau ac yntau i weld rhagor o bontio a chyd-ddeall rhyngom yn ein tref a'n bro.**



**Diolch i'n Gweinidog am drefnu'r ymweliad ac i'r chwiorydd am baratoi paned ar ein cyfer ni i gyd. Bu'n gyfarfod gwerthfawr iawn ac yn gyfle i ni ehangu cylch ein ffrindiau, dod i wybod mwy am arferion a chredoau'n gilydd, a pharatoi'r ffordd, gobeithio, ar gyfer creu cymdeithas fwy goddefgar a chytûn.**


priordy

**Dr Eirian Lewis .....**

## WYTHNOS *BYW NAWR* MAI 8-14 2017



Cynhelir wythnos *Byw Nawr*, cangen Cymru o "*Dying Matters:Live Now"* yn ystod mis Mai eleni. Ymgyrch yw hon i gael pobl i fod yn fwy parod i siarad am farwolaeth a phrofedigaeth - pwnc sy'n ychydig o tabŵ ac yn codi pryder mewn nifer. Dim ond 1 mewn bob 10 sydd wedi siarad â rhywun am ble yr hoffent farw. Gallwn oll fod yn sicr ein bod yn mynd i farw, ond nid oes gennym reolaeth dros ble na phryd. OND gallwn gyfrannu syniadau am y gofal yr hoffem ei dderbyn ar ddiwedd ein hoes, drwy roi gwybod i'n teulu neu ffrindiau ar lafar neu ar bapur. Dymunaf dynnu eich sylw at rai pethau pwysig yn yr erthygl hon.



CYNLLUNIO'CH GOFAL AR GYFER Y DYFODOL GYDA'N GILYDD

Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw
Cyngor a Chofnod y Claf

**Diwedd Oes. Sut ofal? Ble?**

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda sy'n rhoi cyngor ar faterion megis ble i ysgrifennu eich dymuniad am ofal diwedd oes. Nid yw'n orfodol eich bod yn darllen y llyfryn, ac nid yw'n ddogfen gyfreithiol, ond mae'n gyfle i ysgrifennu dymuniadau sy'n bwysig i chi yn bersonol. Ble hoffech farw? Pwy hoffech eu bod yn edrych ar eich ôl? Mae'n bwysig bod eich teulu neu'ch ffrindiau yn ymwybodol o'ch dymuniadau.

Mae'n gyfle hefyd ichi nodi'r pethau sy'n bwysig i chi yn bersonol e.e rwy eisiau bod fy ngwallt yn daclus bob amser, dannedd dodi yn fy ngheg bob amser, dannedd glân, gwinedd wedi paentio, cael fy siafio bob dydd. Gall hefyd fod yn ymwneud â phethau meddygol e.e nid wy'n dymuno cael fy mwydo drwy bibell yn fy nhrwyn, a nid wyf yn dymuno mynd drwy'r broses o adfywio'r galon a'r ysgyfaint (cardiopulmonary resuscitation).

**Ewyllys**

Mae ysgrifennu ewyllys yn bwysig i ddatrys materion cyfreithiol ar ôl eich amser. Os nad ydych wedi ysgrifennu ewyllys bydd eich arian a'ch eiddo yn cael eu rhannu yn ôl rheolau pendant ac mewn peryg o gyrraedd dwylo rhai nad ydynt wedi bod yn rhan o'ch bywyd o gwbwl, er eu bod efallai, yn perthyn

o bell.  Os nad oes gennych berthnasau bydd yr arian yn mynd i'r Goron. Felly os oes gennych dylwyth neu ffrindiau sydd wedi bod yn dda i chi, mae'n bwysig eich bod yn cofio amdanynt.

**Cynllunio Angladd**
Dyma gyfle i rannu gyda'ch teulu â'ch ffrindiau unrhyw ddymuniadau personol ynglyn â'ch angladd e.e. gwisgo lliw arbennig, cerddoriaeth neu emynau o'ch dewis, darn o farddoniaeth rydych yn hoff ohono, dewis cludwyr i'r angladd. Gallwch ysgrifennu tipyn o'ch hanes, a nodi'r pethau yr hoffech eich bod yn cael eich cofio amdanynt.  Cofiwch mai dathlu eich bywyd sydd yn bwysig. Claddu neu amlosgi? Sut arch? Beth hoffech wneud gyda'r llwch? Gall eich ymgymerwr lleol eich cynorthwyo i gynllunio'ch angladd o flaen llaw, ynghyd â thalu amdano.

**Pŵer Arhosol am Gyfoeth a Iechyd (Lasting Power of Attorney for Wealth and Health)**
Mae hwn yn ddogfen gyfreithiol sy'n rhoi cyfle i chi enwebu rhywun o'r teulu neu eiriolwr (advocate) fydd yn gallu gwneud penderfyniadau ar eich rhan pe baech chi mor sâl eich bod yn methu gwneud penderfyniad drosoch eich hunan. Gall gael ei gofrestru, ond ni fydd angen iddo ddod mewn i fodolaeth hyd nes eich bod yn methu gwneud penderfyniad drosoch eich hunan oherwydd salwch corfforol neu feddyliol.

Mae'n bwysig iawn fod eich teulu neu'ch eiriolwr yn gwybod am eich dymuniadau personol chi. Dyma pam mae'r  llyfryn *Cynllunio'ch Gofal ar gyfer y dyfodol* o gymorth. Gall eich cynorthywo i fynd ati i osod eich dymuniadau yn glir ar bapur er mwyn galluogi eich teulu i sicrhau eich bod yn cael y gofal o'ch dewis chi.

Mae *Byw Nawr* yn cefnogi *Gofal Lliniarol (Palliative Care)* da a'r pwysigrwydd o gadw person yn gyfforddus a "*chaniatau marwolaeth naturiol*". Bydd digwyddiadau lleol, gyda siaradwyr ar y pynciau a nodwyd, cyfle i gael paned a sgwrs ynghyd  â byrddau i fynegi teimladau yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos Mai 8-14 eleni. Gobeithio bod yr erthygl hon wedi rhoi rhywbeth i chi gnoi cil drosto.

***Diolch I'r Dr Eirian Lewis (Meddyg Teulu a Gofal Lliniarol) am yr erthygl hon.  Sydd hefyd yn ymddangos yn Y Ddolen. Mae Eirian yn flaenor yng Nghapel Bancyfelin***

## Y GYMDEITHAS

***Nos Lun 3 Ebrill 2017***



Yn absenoldeb ein Gweinidog oherwydd anffawd ei thad, Gareth Gravell oedd yn y gadair y mis hwn. Diolch iddo yntau ac i Eira Jenkins a agorodd y cyfarfod trwy ddarllen *Tydi a Roddaist*, emyn T Rowland Hughes, a hynny'n addas iawn i'r gwanwyn. Cofion at rieni Beti-Wyn, gyda llaw, oddi wrthym i gyd, ac mae'n dda deall bod pethau'n gwella.

Cyflwynodd Gareth ein siaradwr gwadd, Glynog Davies. Roedd cymaint i'w ddweud – byd darlledu, dawnsio gwerin, organydd ac arweinydd cymanfaoedd, cynghorydd sir, chwaraewr rygbi a dyn teulu sy'n dwlu ar y ddwy wyres fach i enwi ond yr hanner!

Ac mae Glynog yn siaradwr naturiol braf, fel y gwyddom. Llifodd storïau difyr yn rhwydd ac yn rhugl, a digon o hwyl rhyngom wrth wrando. Canolbwyntiodd ar bedwar dyddiad a phedair taith a fu'n rhan o'i hanes yn rhinwedd ei waith. 1986 – Israel a chael ei ddanfon yno gan HTV, 1989 – Estonia, a ffilmio eto, a'r tro hwn doleri 'n bwysig a chyflwr y wlad yn llwm, wedyn 1994 – Kenya, profiad gwahanol ond unwaith eto yn gweld cyflwr gwlad yn agoriad llygad iddo, ac yn olaf 2006 – Ffrainc a'r hanes yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gyda **Cerdded y Llinell**. Yn sicr, mae Glynog wedi gweld y byd, a chawsom rannu yn rhai o'i brofiadau wrth wneud. Aeth yr orig fach yn sydyn, ond nid cyn i ni ddychwelyd i Gymru trwy ymuno i adrodd **Hon** T H Parry Williams.

Bu cyfle i ofyn cwestiynau, a daeth y paned da arferol a bisgedi gan griw'r gegin a chyfle i gymdeithasu ychydig cyn troi am adref.

**OEDFA DDINESIG YN Y PRIORDY**
**Bore Sul 11 Mehefin 2017 – 10 o'r gloch**
***yng ngofal***
**Y PARCHEDIG BETI-WYN JAMES**
**CAPLAN Y MAER, Y CYNGHORYDD ALUN LENNY**
**A'R FAERES ANN LENNY**
***Croeso cynnes i bawb***



| | |
|---|---|
| ENW | Eleri Thomas |
| | |
| MAN GENI | Brookmans Park, Swydd Hertford |
| | |
| CAPEL PLENTYNDOD | Capel Presbyteraidd Cymraeg Wood Green Llundain |
| | |
| BYW NAWR | Nantycaws |
| | |
| TEULU | Emyr (gŵr), Jac (mab) a Miffy y ci! |
| | |
| GWAITH | Ffermio |
| | |
| GWYLIAU GORAU HYD YMA | Orlando 2015 |
| | |
| HOFF BLOG | Ddim yn troi atynt |
| | |
| FY ARWR | Nelson Mandela |
| | |

| | |
|---|---|
| FY NGHAS BETH | Hiliaeth |
| | |
| HOBI | Nofio, darllen |
| | |
| HOFF ADNOD NEU DDYFYNIAD | Martin Luther King.. “Darkness cannot drive out darkness, only light can do that. Hate cannot drive out hate, only love can do that” |
| | |
| PERSON CATH NEU GI | Ci |
| | |
| PRIF GWRS GORAU | Lasagne |
| | |
| CAR | Shogun |
| | |
| SIOP ORAU | Wally’s Deli, Caerdydd |
| | |
| YR OLYGFA ORAU YN Y BYD | Unrhyw le ble mae môr a haul! |
| | |
| HOFF RAGLEN DELEDU | Stella |
| | |
| Y WLAD NEU’R DRE I CHI | Y wlad |
| | |
| FY UCHELGAIS | Gyrru o un pen yr Unol Daleithiau i’r llall |
| | |
| BLE HOFFECH CHI FOD YN BRY AR Y WAL | Y tu mewn i Apollo 11 ym 1969 gyda Neil Armstrong |

**DAETH NODYN I LAW DRWY’N GWEINIDOG GAN MARED WYN OWEN, UN O’N POBL IFAINC, YN TYNNU’N SYLW AT DDIGWYDDIAD ARBENNIG I’W GYNNAL YNG NGHAERFYRDDIN AC YN GOFYN I NI AM EIN CEFNOGAETH IDDO**



***MAE*** Cymdeithas y Sgowtiaid yn cymryd rhan flaenllaw mewn prosiectau cymdeithasol ac yn helpu pobl eraill.

Ar 16 Mehefin 2016, cafodd yr Aelod Seneddol **Jo Cox** ei llofruddio oherwydd ei hagwedd at fewnfudo. Yn ei haraith agoriadol yn y Senedd dywedodd Jo fod gennym ni "*fwy sydd yn ein huno na sydd yn ein gwahanu.*"



Mae gŵr Jo, Brendan Cox, wedi gwneud apêl i bobl y DU ddod at ei gilydd i gofio bywyd Jo union flwyddyn ar ôl ei llofruddiaeth. Mae'n dymuno galw'r digwyddiad yn "*The Great Get Together*" - d'yn ni ddim wedi penderfynu ar yr enw Cymraeg eto!

**Mae Uned Sgowtiaid Myrddin wedi uno gydag elusen *'Hope Not Hate'* Caerfyrddin i drefnu digwyddiad ym Mharc Myrddin ar 17 Mehefin 2017. Bwriad y digwyddiad yw rhoi cyfle i bobl Caerfyrddin ddod at ei gilydd, boed yn Gristion, Iddew neu Fwslim, yn ddu neu'n wyn, hen neu'n ifanc, yn hoyw neu beidio, abl neu'n anabl, Cymro, Sais, Somali neu'n Bacistani a mwynhau cwmni'n gilydd, cerddoriaeth a phaned o de.**

***RYDYM*** yn gobeithio y bydd cymaint o grwpiau cymdeithasol â phosib yn cefnogi'r digwyddiad, **Yn fwy na dim rydym yn gofyn i bobl annog grwpiau i ddod ar y diwrnod a chefnogi.** Byddem yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth. Hoffem ddangos i'r byd fod pobl Caerfyrddin yn oddefgar a chroesawgar - tref llawn gobaith, nid

casineb. Gobeithio'n fawr y gallwch gefnogi'r digwyddiad

***Diolch yn fawr iawn i Mared am y wybodaeth hon. Mae'n siŵr ein bod i gyd yn gefnogol iawn i'r ymgyrch ac y byddwn yn gwneud pob ymdrech i gefnogi'r digwyddiad.***

## GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| MAI | | MEHEFIN | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Sulwyn Thomas | | David Lloyd | |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 14<br>28 | June Thomas<br>Mair Baston | Mehefin | 11<br>25 | Eira Jenkins<br>Janet davies |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | 7 | Bore | Margaret Lloyd-Evans ac Eirlys Davies |
| Mehefin | 4 | Hwyr | Miriam Wyrwoll a Carys Morgans |

## YMWELWYR

| | |
|---|---|
| Mai / Mehefin | Glenys Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins |

| DARLLENWYR MAI / MEHEFIN 2017 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mai | 7 | Dr Myfanwy Jones | Mehefin | 4 | Delyth G Davies |
| | 14 | | | 11 | Adrian Evans |
| | 21 | Alison Parsons | | 18 | Rhodri Elias<br>Elfyn Jones,<br>Rhys Jones |
| | 28 | Peter H Griffiths | | 25 | Meleri Llwyd O'Leary |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mai | Catrin H Jones | Mehefin | Philip Jones |

# RHWYDWAITH

Byddwch chi a fu'n dilyn cystadleuaeth **Côr Cymru** ar **S4C** wedi gweld wynebau cyfarwydd o'r Priordy. Roedd Elin Llwyd a Lowri Edwards yng **Nghôrdydd**, ac Elin Llwyd hefyd yng **Nghôr Merched Ceredigion**, a Mared Owen ac Elin Wyn James a Sara Llwyd James yng **Nghôr Merched Sir Gâr**. Llongyfarchiadau iddynt i gyd ond yn arbennig i **Gôr Merched Sir Gâr** a ddaeth i'r brig yn y rownd derfynol nos Sul, 9 Ebrill yn Aberystwyth a hynny ar ôl ennill categori'r côr ieuenctid gorau rai wythnosau cyn hynny. Byddant yn cael y cyfle 'nawr i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth **Côr y Flwyddyn Eurovision 2017** yn Latfia, ac **S4C** yn darlledu o'r gystadleuaeth ar Orffennaf 22.



Daeth llwyddiant hefyd i ran côr arall yn ddiweddar, sef **Côr Tonic** sy'n ymarfer yn ein festri ni, a nifer ohonynt yn aelodau yn y Priordy. Llongyfarchiadau mawr iddynt am ddod i'r brig yn y Gystadleuaeth Glasurol: Canu Grŵp Traddodiadol yn yr **Ŵyl Ban Geltaidd Ryngwladol yn Iwerddon**.

Yn y **Carmarthen Journal** ddechrau'r mis gwelwyd llun Sulwyn



Thomas gyda chriw **Llyfrau Llafar Cymru** yn derbyn siec oddi wrth **Eglwysi Annibynwyr Penygroes Llanelli** a **Staff Theatr Ysbyty Glangwili** ar gyfer **Apêl Wythnos y Gannwyll** – achos da iawn, wrth gwrs! Ymddangosodd Elin Llwyd ar **Heno** un noson a bu'n sôn am ei thaith i Rwanda ychydig yn ôl, ac roedd hi hefyd ar **Raglen Siân Cothi** ar **Radio Cymru**. Bu Elinor Wyn Reynolds hefyd ar **Heno** un tro a hel atgofion ymhlith pethau eraill.



Llongyfarchiadau oddi wrthym i gyd i Siwan Jones o'n Hysgol Sul ar ennill cystadleuaeth Unawd yn **Eisteddfod Pontrhydfendigaid**. Ymddiddorwn yn ei hanes cerddorol a phob dymuniad da iddi.



Llongyfarchiadau hefyd i bawb o'r Priordy a fu'n rhedeg yn **Ras y Maer** yn y dref hon eleni – clywsom eisoes am lwyddiant un o'n plant, sef Gwenan Jones a ddaeth yn gyntaf yn ei grŵp oedran, a llongyfarchiadau mawr iddi hithau.

Dymunwn yn dda i Llinos Jones, Trem y Coleg, a mam Noa a Nel yn

ein Hysgol Sul, ar gael ei phenodi'n Bennaeth Addysg Grefyddol yn Ysgol y Strade, Llanelli. Pob hwyl iddi yn y cyfrifoldeb arbennig hwn.

Da gennym glywed bod arddangosfa o waith Wynne Jenkins, Heol Bronwydd, yn **Oriel Ffin y Parc**, Llanrwst (30 Ebrill-24 Mai) a byddwn yn clywed am ragor yn ddiweddarach y flwyddyn arbennig hon!

Llongyfarchiadau i Peter Hughes Griffiths ar ei ailethol yn gynghorydd ar Gyngor Sir Gâr. Newyddion ardderchog a phob dymuniad da iddo wrth y gwaith.



***AC I GLOI***, cyfarchion cynnes iawn oddi wrth bawb yn y Priordy i Daniel Owen Evans, Hafan Tywi, Y Rhodfa, a fydd yn cyrraedd pen-blwydd arbennig ar 15 Mai. Hyderwn y bydd dathlu yn y teulu a chofion ato ac at Iris.

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mehefin i'n Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037**

**CYDYMDEIMLAD**


**Drwg gennym glywed bod Elen Marks, Maes Pedr, Traveller's Rest, wedi colli'i mam-gu, Rachel Samson a gâi ei hadnabod fel Ray, ar 1 Mai. Estynnwn ein cydymdeimlad ag Elen ac Ian a'r plant Jona a Mali a gweddill y teulu yn eu tristwch.**

**DIOLCH YN FAWR**



Diolch i Beti-Wyn a Philip ac Eleri Thomas, Mared Wyn Owen a Gwynfor Davies am y lluniau'r mis hwn

## SIOE WILLIAM MORGAN



**Dydd Sul 18 Mehefin 2017 – Y Priordy – 10 y bore**

**Yn dilyn llwyddiant Sioe Mari Jones yn y Festri y llynedd, bwriedir ymestyn cyfle i bawb y tro hwn fwynhau Sioe William Morgan yn y capel.**

GŴYL HANES CYMRU I BLANT
CHILDREN'S FESTIVAL OF WELSH HISTORY
2016

***Mwy am hyn y mis nesaf***

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mai** | **7** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **14** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Codi'r To - Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog. *Gweler y tu mewn*<br>Oedfa Cymorth Cristnogol dan nawdd Cytûn yn Heol Awst am 5 gyda'r Parchedig Ddr Ainsley Griffiths | |
| | **21** | *Bore* | Ein Gweinidog | |
| | **28** | *Bore*<br>*P'nawn* | Dr Dai Lloyd<br>Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana gyda'r Dr Dai Lloyd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Mehefin** | **4** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Ein Gweinidog Y Tabernacl yn ymuno â ni | **Cymun** |
| | **11** | *Bore*<br>*Hwyr* | Ein Gweinidog<br>Yn ymuno â'r Tabernacl ar gyfer oedfa gyda Tudur Dylan Jones | |
| | **18** | *Bore*<br><br>*Hwyr* | Sioe William Morgan. Cyfle i bawb ei gweld yn y capel. *Gweler y tu mewn*<br>Cymanfa Fawr Pantycelyn am 7 gyda John S Davies yn arwain ac Elin Llwyd yn unawdydd | |
| | **25** | *Bore*<br>*P'nawn* | Ein Gweinidog<br>Gŵyl Hirddydd Haf – Oedfa ym Mharc y Dref am 4.30 (wedi'i threfnu gan y Presbyteriaid) | |

| CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ✓ Ysgol Sul   CP : Cwrdd Plant   - Dim Ysgol Sul   HT – Hanner Tymor<br>WM – Sioe William Morgan | | | | | | | |
| **MAI** | | | | **MEHEFIN** | | | |
| **7** | **14** | **21** | **28** | **4** | **11** | **18** | **25** |
| ✓ | **CP** | ✓ | **HT** | ✓ | ✓ | WM | ✓ |

**Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL**

## DR DEWI EVANS



**Nos Lun 8 Mai 2017 – 7 o'r gloch**
**Festri'r Priordy**